Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol ar Sepsis

Dydd Mawrth 1 Mai 2018

6pm – 7.45 pm

Yn bresennol:

Angela Burns (Cadeirydd), Terence Canning (Ysgrifenyddiaeth), Michael Bryan, Huw Irranca-Davies, Damian Bridgeman (Social carers network), Paul Bridgeman, Nesta Lloyd Jones (Cydffederasiwn GIG Cymru), Dr Paul Mizen, Phil Hill (Nyrs, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan), Dr Rebecca Payne (Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu), Richard Cole (Cadeirydd Sioe Penfro / un sydd wedi goroesi sepsis), Anne Cole, Michelle Christopher (un mewn galar), Mr a Mrs Steve a Bernie Day (wedi colli eu merch), Tracey Laight (UK Sepsis Trust / un sydd wedi goroesi sepsis)

Ymddiheuriadau: Julie Morgan AC, Dr Paul Morgan.

- Agorwyd y cyfarfod gydag AB yn croesawu pawb, yn amlinellu'r agenda ac yn esbonio y byddai cyfarfod cyffredinol blynyddol cyflym ac etholiad y Cadeirydd a'r Ysgrifenyddiaeth yn mynd rhagddo cyn y cyfarfod arferol.

- Ail-etholwyd Angela Burns AC fel cadeirydd. Ail-etholwyd Terence Canning o UKST fel ysgrifenyddiaeth.

- Aeth Damian Bridgeman o 'social carers network' i'r afael ag heriau a bylchau mewn hyfforddiant mewn cartrefi gofal. Mae gan Damian barlys yr ymennydd ac mae wedi cael sepsis 9 gwaith. Mae'r amseru a'r cymhwysedd o ran cael cydnabyddiaeth am ei salwch a'i driniaeth wedi amrywio'n fawr. Codwyd cwestiynau ynghylch diffyg hyfforddiant.

- Cyfeiriodd Huw Irranca-Davies AC (y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol) at bwyntiau Damian cyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp ynghylch cyflwr gofal cymdeithasol ar hyn o bryd, yr heriau sy'n wynebu'r sector, a'r cynlluniau presennol ar gyfer gwelliant ac hyfforddiant. Atebodd y Gweinidog rai cwestiynau gan bobl ynghylch y pwyntiau blaenorol.

- Gofynnodd AB am farn a phrofiadau'r grŵp ynghylch cydnabyddiaeth meddygon teulu o sepsis cyn i Rebecca Payne eu hannerch.

- Cyfeiriodd Rebecca Payne o Goleg Brenhinol y Meddygon Teulu at y cwestiynau a godwyd gan y grŵp ac amlinellodd ei phersbectif hi ar gydnabyddiaeth a hyfforddiant meddygon teulu o sepsis, a'u gobeithion am welliannau yn y dyfodol. Cytunodd RP i weithio'n agosach gyda UKST er mwyn ceisio eu hannog i gydweithio â meddygon teulu, ac awgrymodd y dylai unigolion yn y grŵp geisio rhyngweithio â meddygon teulu ar lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol gan fod hyn yn aml yn ffordd dda o ymgysylltu.

- Ar ôl gofyn a oedd unrhyw fater arall, a chyn cau'r cyfarfod, dywedodd Angela Burns wrth y grŵp y byddai manylion cyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol ar sepsis yn digwydd ar ôl y toriad ac y byddai'r manylion hynny'n cael eu dosbarthu unwaith y byddent wedi eu cytuno.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.45 pm